# PWYLLGOR PENODI

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Tachwedd 2014

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorwyr Jeff Evans, John Griffith, D R Hughes, Vaughan Hughes, Victor Hughes, Carwyn Jones, H E Jones, R G Parry OBE, J A Roberts Ieuan Williams |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr<br>Dirprwy Brif Weithredwr<br>Pennaeth Proffesiwn – Adnoddau Dynol<br>Swyddog Adnoddau Dynol (CW)<br>Swyddog Pwyllgor (MEH) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Dim |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Dim |

---

**1 ETHOL CADEIRYDD**

Etholwyd y Cynghorydd Ieuan Williams yn Gadeirydd.

**2 ETHOL IS-GADEIRYDD**

Etholwyd y Cynghorydd Bob Parry OBE yn Is-Gadeirydd.

**3 DATGANIADAU O DDIDDORDEB**

Gwnaed datganiad o ddiddordeb gan y Cynghorydd Ieuan Williams mewn perthynas ag eitem 8 a gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth a’r bleidlais arni.

**4 COFNODION**

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Mawrth 2014.

**5 CAU ALLAN Y WASG A’R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD mabwysiadu’r isod:-**

“**Dan Adran 100 (A)(4) Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, gyrru’r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn, oherwydd y tebygrwydd y câi gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwna Paragraff 12 y Ddeddf eithriad ohoni fel y diffinnir y wybodaeth yn y Ddeddf ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm".**

**6 PENODI PENNAETH GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD**

Gohiriwyd yr eitem.

7 **CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r isod:-**

"**Dan Adran 100 (A)(4) Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, gyrru'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn, oherwydd y tebygrwydd y câi gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwna Paragraff 12 y Ddeddf eithriad ohoni fel y diffinnir y wybodaeth yn y Ddeddf ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm".**

8 **PENODIADAU STAFF**

**Pennaeth Corfforaethol Cyllid a Chaffael**

Derbyniwyd 8 cais am y swydd uchod.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo 7 o'r ymgeiswyr ar gyfer symud ymlaen i gam nesaf y broses benodi.**

**Y CYNGHORYDD IEUAN WILLIAMS**
**CADEIRYDD**